



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

- 1: Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n** deg, yn foesebol a chynaliadwy
- 2: Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy** a gwneud y cysylltiadau
- 3: Chwarae ein rhan i sicrhau** fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb
- 4: Sicrhau ein bod yn deal** pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang
- 5: Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr, i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu**





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw
beth i wella llesiant economaidd,
cymdeithasol, amgylcheddol a
diwylliannol Cymru, yn ystyried
a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n
gadarnhaol at lesiant byd-eang.”*



Diffinio'r nod

Martin Luther King yr leuengaf a ddywedodd: “cyn i chi orffen bwyta'ch brechwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar hanner y byd.”

Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd, ein penderfyniadau a'r ffordd yr ydym yn dewis gwario ein harian ganlyniadau pellgyrhaeddol i wledydd eraill a phobl ar draws y byd. Dengys amcangyfrifon y byddai arnom angen 1.7 Daear i barhau gyda'n lefelau presennol o dwf a defnydd.

Mae'n hollbwysig ein bod, wrth feddwl am wella llesiant pobl yng Nghymru, hefyd yn meddwl am ein heffaith ar eraill. Nid defnyddwyr byd-eang yn unig ydym ni, ond dinasyddion byd-eang, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chadwyni cyflenwi moesegol, yn defnyddio ein rhan deg o adnoddau naturiol y ddaear, yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, yn gweithio i wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb, gan wneud y penderfyniadau ariannol cywir ac addysgu pobl eraill pa mor bwysig ydyw cyfrifoldeb byd-eang.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffaelwch nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol\)](#)

Darparwch gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am a deall ein heffaith yn fyd-eang

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang\)](#)

Sicrhewch fod ein cymunedau'n croesawu pawb, gan gyfrannu at lesiant cymdeithasol a diwylliannol

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 3: Cydsefyll a heddwch\)](#)

Defnyddiwch adnoddau naturiol yn ddoeth, gan gyfrannu at lesiant amgylcheddol yn fyd-eang ac yng Nghymru

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 4: Ein rhan deg o adnoddau naturiol\)](#)

Gwnewch benderfyniadau ariannol sy'n gwella llesiant economaidd yn fyd-eang ac yng Nghymru

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 5: Buddsoddi a dargyfeirio teg a moesegol\)](#)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Bwriad y **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015 oedd brwydro yn erbyn caethwasiaeth modern yn y DU, ac mae'n cyfnerthu troseddau blaenorol sy'n berthnasol i fasnachu pobl a chaethwasiaeth. Mae gan y llywodraeth ganllawiau ar gyfer sefydliadau ar sut i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn eu busnes neu eu cadwyni cyflenwi [yma](#).



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd cymdeithas sifil yn cefnogi gweithredu sy'n cael effaith byd-eang cadarnhaol.
- Pan gytunir bod amrywiaeth yn uno cymunedau yn hytrach na'u rhannu.
- Pan fydd pwysigrwydd gweithredu byd-eang yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall: a heb fod yn cael ei weld fel rhywbeth syml, dymunol 'ychwanegol' at fusnes-fel-arfer.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr eraill yn berchen ar y weledigaeth i gynorthwyo prosiectau byd-eang ac yn deall ein cyfraniad cadarnhaol ac yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'u perthnasedd i Gymru.



Analluogwyr

Mae'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd 'gofalu am Gymru gyntaf', gan anwybyddu popeth arall.
- Pan na fydd mesurau neu ddangosyddion ar gael i ddisgrifio natur ymagweddau effeithiol tuag at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd sefydliadau ynghlwm wrth drefniadau sy'n bodoli eisoes – megis contractau caffael, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd.
- Pan fydd arbenigedd perthnasol mewn sefydliadau'n gyfyng ac mewn seilos.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

5: Buddsoddi a Gwaredu Teg a Moesegol

Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr, i
alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu

Diffinio'r mater

Mae'r ffordd yr ydym yn gofalu am ein harian, ein buddsoddiadau a chyllidebu yn medru cael effeithiau arwyddocaol a chanlyniadau difrifol. Drwy ddefnyddio egwyddorion hirdymor ac ataliol wrth wneud eich penderfyniadau, gallwch gyfrannu'n gadarnhaol tuag at blaned gynaliadwy a'i phobl a lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd.

Cylch-bywyd - Wrth wneud ymrwymïadau ariannol, gall mabwysiadu ymagweddau economaidd tuag at gynllunio cyllid neu gontractau fod yn fanteisiol i'r dyfodol.

Buddsoddi Moesegol - sicrhewch fod holl fargeinio yn y dyfodol gyda sefydliadau ariannol yn foesegol a heb fod yn buddsoddi mewn pethau a fedr fod yn niweidiol e.e. caethwasiaeth plant, llafur plant gorfodol, y newid yn yr hinsawdd, arfau, gwrthdaro milwrol, llygredd amgylcheddol a

throseddau'n ymwneud â hawliau dynol a hawliau anifeiliaid.

Ynni-ffosil / Gwaredu arfau - mae defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear yn hanfodol ar gyfer llwyddiant cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy roi'r gorau i bethau fel pensiynau o ffynonellau sy'n niweidiol, yn cynnwys tanwydd ffosil, llygryddion, troseddau hawliau dynol ac arfau, rydych chi'n sicrhau gwell dyfodol i bawb. Drwy sicrhau fod ein hynni'n adnewyddadwy ac yn rhydd o ffosiliau, gallwn sicrhau nad yw'r hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru'n niweidiol i eraill ar ein planed a gallwn gyfrannu tuag at aros o dan y targed hinsawdd o 1.5 gradd.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru lewyrchus

Pwnc 4: Cynhyrchu ynni cymunedol



Taith tuag at Gymru o Gymunedau Cydlynus

Pwnc 3: Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol

Gwneud **Newidiadau** Syml

Adolygwch ein contractau ynni, darparwyr pensiynau a phortffolios buddsoddi i weld sut fedrwyd chi fod yn llai o faich ar y ddaear a'i phobl.

e.e. Gweler [cynllun trafndiaeth carbon lsel](#) **lechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n dangos sut y gallwn drwy fuddsoddi yn yr ymyriadau cywir wella iechyd pobl a'n planed.

Edrychwch yn ofalus ar y posibilrwydd o gael eich ynni o ffynonellau ynni cymunedol lle gallwch chi ei ddarparu.

Adolygwch eich prosesau bancio, i leihau eich cymorth i danwydd ffosil, caethwasiaeth plant, cyflymu'r newid yn yr hinsawdd, arfau, gwrthdaro milwrol a llygredd amgylcheddol, datgoedwigo a throsteddau'n ymwneud â hawliau dynol a hawliau anifeiliaid.

Archwiliwch enwebu staff i hyrwyddo gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a phenodwch 'Eiriolydd Newid Hinsawdd' i'ch bwrdd neu uwch dîm.

e.e. [Cynllun eiriolydd hinsawdd Sir Fynwy](#).

Hyrwyddwch undebau credyd lleol fel y gall eich cymuned weld y manteision iddynt hwy yn ogystal â'u cymuned.

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Rhowch y gorau i bensïynau o danwydd ffosil, drwy sicrhau nad oes unrhyw stocïau, bondïau, neu gronfeydd buddsoddi yn ariannu'r diwydiant nwy, olew neu lo, a lleihau eich baich ar y blaned a'i phobl.

e.e. [Cyngor Sir Fynwy](#) a [Phrifysgol Caerdydd](#).

Sicrhewch fod o leiaf 75% o'ch ynni'n dod o ffynonellau adnewyddadwy.

e.e. Mae **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** wedi newid ei ynni swyddfa i dariff adnewyddadwy 100%.

Sicrhewch fod o leiaf 60% o'ch ynni adnewyddadwy'n dod o ffynonellau ynni cymunedol.

e.e. Ymddiriedolaeth ynni arloesol cymunedol [Awel Aman Tawe](#).

Mae [Ynni Cymunedol Abertawe'n](#) enghraifft flaengar o'r modd y gallwch ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i ennill canlyniadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol llawn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwella'i gynllun peilot i sefydlu [Pŵer Solar yn ei holl ysgolion](#) a defnyddio cerbydau trydan megis Pryd ar Glud a [thrafnidiaeth gyhoeddus](#).

Cysylltwch â gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar enquiries@energyservice.wales am gymorth technegol, ariannol neu arbenigol ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

Bod Yn Fwy Anturus

Symudwch eich bancio oddi wrth danwydd ffosil - gofynnwch i'ch banc pa gwmnïau y maen nhw'n ymgysylltu â nhw a gyda phwy maen nhw'n buddsoddi? Bydd hyn yn caniatáu i chi ystyried a yw eich gwasanaethau'n cyfrannu tuag at lesiant byd-eang.

ee

e.e. tra na fyddai'n foesegol i ffafrio un sefydliad ar draul y llall, mae gwerthoedd [Banc Triodos](#) er enghraifft yn gyfrifol yn fyd-eang "Credwn y dylai banciau fod yn agored - dyna pam yr ydym yn cyhoeddi manylion pob sefydliad yr ydym yn benthyca arian iddynt. Rydyn ni'n falch i ariannu busnesau ac elusennau ysbrydoledig, ac yn dymuno dangos yr effaith a gaiff eich arian. Gyda'n gilydd rydyn ni'n adeiladu cymdeithas fwy cynaliadwy. Edrychwch i weld pwy rydyn ni'n eu hariannu yn eich ardal chi a ledled y byd."

Anogwch y defnydd fel bod cynilon yn cael eu gweithredu'n gydweithredol ac arian yn aros yn y gymuned.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol i berchnogi'r uchelgais

Mae gan Gymru [economi cylchol](#) cwbl weithredol.

Mae Cymru'n [genedl garbon](#) niwtral.

e.e. Mae [Prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru'n](#) dangos sut mae'n buddsoddi mewn Cymru ddi-garbon.

Sut fedr eich sefydliad berchnogi'r uchelgais

Mae eich holl gontractau a thendrau'n cynorthwyo ynni adnewyddadwy gant y cant, dim caethwasiaeth, dim llafur plant gorfodol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, hawliau dynol a chadwraeth ac nid yw'n cefnogi'r [fasnach arfau](#).

Rydych chi'n [sefydliad / swyddfeydd di-garbon](#) yn cynnwys eich teithio, ynni, pensiynau a'ch caffael.

Mae eich holl weithdrefnau ariannol megis bancio, contractau, pensiynau a buddsoddiadau'n cynorthwyo ynni adnewyddadwy gant y cant, dim caethwasiaeth, dim llafur plant gorfodol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, hawliau dynol a chadwraeth a heb fod yn cynorthwyo'r [fasnach arfau](#).

Enghreiffiau ac adnoddau eraill



Sefydliad wedi ei leoli yn y DU yw [Climate Action](#) gydag awgrymiadau a gweithrediadau i'ch helpu i leihau'r newid yn yr hinsawdd.



[New Economics Foundation](#)



Sefydliad wedi ei leoli yn y DU yw [Carbon neutral](#) a fedr eich helpu i ddod yn garbon niwtral.




[CLES](#)



Y Ganolfan Technoleg Amgen ym Machynlleth yw [Zero Carbon Britain](#) gydag astudiaethau achos ac enghreifftiau ymarferol.



Sefydliad cenedlaethol yw [Adfywio Cymru](#) sy'n adnodd defnyddiol.



Sefydliad yn y DU yw [Fossil Free](#) sy'n cynorthwyo'r fenter hon.